



# Yr Ysgwrn

Canllaw ar gyfer  
Grwpiau Teithio  
ac Addysgol

[www.yrysgwrn.com](http://www.yrysgwrn.com)



Mae **Ellis Humphrey Evans** (1887–1917) yn ffigwr hynod o bwysig ym mywyd diwylliannol Cymru. Tan yn ddiweddar, roedd ei stori ysgogol yn anhysbys i lawer. Mae hynny i gyd wedi newid gydag agoriad diweddar ei gartref – ffermdy **Yr Ysgwrn** – fel canolfan ymwelwyr bwysig newydd.



## Beth yw'r stori?

Ganed **Ellis Humphrey Evans** yn 1887, ac mae'n fwy adnabyddus wrth ei enw barddol, **Hedd Wyn**. Yn fardd, ffermwr a milwr, ysbrydolwyd ei ysgrifennu gan natur, crefydd ac yn ddiweddarach, erchyllterau'r Rhyfel Byd. Bu farw yn ystod y gwrthdaro.

Mae gan Hedd Wyn le mawr – a theimladwy iawn – ym mywyd diwylliannol Cymru oherwydd iddo farw cyn gwybod ei fod wedi ennill y wobr fwyaf yn llenyddiaeth Cymru: y gadair farddol am y gerdd fuddugol yn **Eisteddfod Genedlaethol 1917**.

Heddiw mae hen gartref Hedd Wyn, **Yr Ysgwrn**, fferm ger Trawsfynydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, wedi cael ei aileni fel atyniad diwylliannol unigryw. Dim ond rhan o brofiad aml-ddimensiwn yr ymwelydd yw bywyd a gwaith y bardd, a all olygu llawer o bethau gwahanol. Ynghyd â'i arwyddocâd llenyddol, mae'r Ysgwrn yn taflu goleuni ar fywyd gwledig a **hanes cymdeithasol Cymru ar ddechrau'r 20fed ganrif**, yn ogystal ag effaith leol y **Rhyfel Byd Cyntaf**.



# Pam ymweld?

## Dechrau newydd



Wedi iddo agor i'r cyhoedd yn 2017 ar ôl adferiad sensitif £3.7 miliwn, mae'r Ysgwrn yn dal yn gymharol newydd, gan roi cyfle i drefnwyr grwpiau fod y cyntaf i'w gyflwyno i'w cleientiaid.

## Ymgolli mewn profiad



Nid dim ond amgueddfa yw'r Ysgwrn, ond profiad hefyd. Gan ddefnyddio cyfuniad o deithiau grŵp dan arweiniad gyda thywyswyr lleol profiadol, ffilmiau a thechnegau dehongli arloesol, mae stori'r Ysgwrn yn cael ei hadrodd mewn ffordd hygyrch a difyr - ar gyfer ymwelwyr sy'n gyfarwydd â gwaith Hedd Wyn a'r rhai heb fawr neu ddim gwybodaeth flaenorol.

## Stori bwerus



Does dim dwywaith fod hanes torcalonnus Hedd Wyn yn llwyddo i gyffroi emosiwn. Dechreuodd ysgrifennu cerddi yn 11 oed, gan hogi ei grefft ac ennill gwobrau lu mewn eisteddfodau rhanbarthol ar draws Cymru. Yna, ymyrodd y Rhyfel Byd Cyntaf. Aeth o fryniau heddychlon Cymru i ffosydd marwol y Ffrynt Orllewinol. Mae ei dynged yn symbol o genhedlaeth goll.

Bu farw Hedd Wyn o'i anafiadau ym Mrwydr Passchendaele cyn iddo glywed am ei fuddugoliaeth yn Eisteddfod Genedlaethol 1917 ar gyfer ei gerdd Yr Arwr, sef ei waith enwocaf a mwyaf clodwiw.

## Taith ddiwylliannol



Bydd ymwelwyr yn darganfod traddodiad barddol cyfoethog yr eisteddfodau, cystadlaethau

barddoniaeth, canu ac adrodd straeon. Byddant hefyd yn dysgu mwy am Gymraeg telynegol a'r ffyrdd unigryw y mae'n cael ei defnyddio, megis y gynghanedd, ffurf farddol heriol a ddysgodd Hedd Wyn i'w hun yn 12 oed.

## Cymru yn y rhyfel



Mae'r Ysgwrn hefyd yn adrodd hanes y tri deg tri o ddynion lleol a ymladdodd ac a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r effaith a gafodd y rhyfel ar y gymuned alarus, agos, fechan hon. Mae ffilm a ddangosir ar wal yr hen ysgubor yn dod â'r cyfnod yn fyw, ynghyd â ffotograffau o'r milwyr na ddaethant adref. Mae arddangosfa yno hefyd sy'n ychwanegu mwy o ddyfnder a manylder trwy arddangosiadau rhyngweithiol ac arteffactau'r cyfnod.

## Bywyd cefn gwlad



Mae gwreiddiau gwledig Yr Ysgwrn yn rhedeg yn ddwfn, gan iddi barhau i fod yn rhan o fferm weithredol. Roedd disgynyddion Hedd Wyn yn byw yn yr hen ffermdy tan 2012, ac mae wedi'i hadfer i sut y byddai wedi edrych ar ddechrau'r 20fed ganrif. Fel capsawl amser diddorol, mae ganddi awyrgylch cartrefol yn hytrach nag amgueddfa, sy'n rhoi cipolwg atgofus i ymwelwyr ar sut yr oedd pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae yng nghymunedau amaethyddol Cymru ar y pryd.

## Lleoliad, lleoliad, lleoliad



Er ei fod yn hawdd i'w gyrraedd o rif gefnffordd yr A470 i'r Gogledd a'r De, mae'r Ysgwrn mewn llecyn diarffordd, tawel sy'n nythu ar odre Eryri. Gall ymwelwyr fwynhau golygfeydd hardd o ffenestri'r caffi, neu ar lwybrau cerdded ag arwyddbyst sy'n mynd drwy dir y fferm.





# Uchafbwyntiau

Byddwch yn clywed hanes y bardd Hedd Wyn, ei gariad tuag at iaith a barddoniaeth, a ddaeth i ben, diolch i ryfel. Mae'n emosiynol ac yn addysgiadol.

---

Y Gadair Ddu enwog, a ddyfarnwyd i Hedd Wyn yn Eisteddfod Genedlaethol 1917. Fe'i gelwid felly am fod y gadair wag wedi ei gorchuddio mewn cynfas du. Byddwch hefyd yn gweld y pum cadair farddol arall a enillodd am ei waith.

---

Canolbwynt y ffermdy yw'r gegin, a adferwyd yn bwrpasol, sy'n cludo ymwelwyr yn ôl i ddechrau'r 20fed ganrif.

---

Mae taith dywys drwy'r ffermdy yn cyfuno mewnwelediad i fywyd bob dydd yn Yr Ysgwrn gyda dyfyniadau o farddoniaeth Hedd Wyn.

---

Darllenwch benillion o Yr Arwr, gwaith enwocaf Hedd Wyn, a ysbrydolwyd gan ei brofiadau o ryfel a hiraeth am ddyfodol mwy heddychlun a chytûn.



Mae un o arddangosiadau mwyaf anarferol Yr Ysgwrn – 26 haenen o bapur wal a adeiladwyd dros ddegawdau o amgylch yr hen faromedr yn y gegin – yn cynnig darlun cofiadwy o hynt yr amser.

---

Gwylwch y ffilm yn yr ysgubor i ddysgu mwy am brofiad Hedd Wyn yn ystod y rhyfel a'r effaith gafodd y gwrthdaro ar y gymuned leol.

---

Mae lleoliad Yr Ysgwrn yn cynnig golygfeydd ysbrydoledig dros Eryri, gyda'r dewis i archwilio ymhellach ar lwybrau cerdded ag arwyddbyst.

---

Mwynhewch gacennau a bwyd ffres yn y caffi wrth wyllo ffilmiau sy'n taflu goleuni ar hanes Yr Ysgwrn ynghyd â thraddodiadau llenyddol a diwylliannol Cymreig.



# Ymweld â'r Ysgwrn: Ar gyfer grwpiau o'r DU a thramor

Mae'r Ysgwrn yn prysur ddod yn safle poblogaidd â'r teithiau sy'n ymwneud â hanes a threftadaeth Cymru, ochr yn ochr ag atyniadau fel cestyll, rheilffyrdd bach cul a thai hanesyddol. Mae'n brofiad eiconig a dadlennol sy'n ymweld â lleoedd fel Castell Caernarfon a Phortmeirion.

Mae gan drefnwyr teithiau fantais hefyd o leoliad yr Ysgwrn yng nghalon Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n agos at gyrchfannau poblogaidd fel Blaenau Ffestiniog, Parc Coedwig Coed y Brenin, Castell Harlech, Porthmadog a Phortmeirion, sy'n ei gwneud yn hawdd i'w gynnwys mewn unrhyw deithlen Gogledd neu Ganolbarth Cymru. Mae yno hefyd ddewis ardderchog o lefydd i aros gerllaw mewn trefi sydd â llety da i grwpiau – er enghraifft, y Bala, Abermaw, Betws-y-coed, Caernarfon, Cricieth, Dolgellau a Llandudno.



# Ymweld â'r Ysgwrn: Ar gyfer ysgolion a grwpiau addysgol

Mae'r Ysgwrn yn adnodd addysgol sy'n annog dysgu drwy weld, profi a gwneud. Fel ystafell ddosbarth fyw, mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, o fanylion bywyd a gwaith Hedd Wyn i drafodaethau ehangach am draddodiadau barddol a llenyddol Cymru. Mae hefyd yn rhoi mewnwelediadau i effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a realiti bywyd bob dydd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru dros 100 o flynyddoedd yn ôl.

Mae teithiau pwrpasol wedi'u cynllunio o amgylch anghenion y gynulleidfa, gan wneud Yr Ysgwrn yn addas ar gyfer myfyrwyr o bob oed a chefnidir addysgol. I ddysgu mwy am ymweliadau addysgol, gan gynnwys asesu risg, adnoddau athrawon a chymorth ariannol posibl, ewch i:

[www.yrsgwrn.com/schools/information](http://www.yrsgwrn.com/schools/information)

# Angen gwybod

Gall Yr Ysgwrn ddarparu ar gyfer grwpiau teithio o hyd at 50 o bobl, gydag ymweliadau'n para o leiaf ddwy awr (hirach os yw ymwelwyr yn dymuno archwilio'r llwybrau cerdded). Ar gyfer ymweliadau addysgol, rydyn ni'n argymhell nad oes mwy na 30 yn ymweld ar y tro.



Mae **parcio am ddim** yn agos i'r brif dderbynfa a gellir cael mynediad i'r safle drwy fysiau hyd at 12m/39.3tr o hyd.



**Caiff teithiau eu teilwra** i weddu i anghenion eich grŵp a gellir eu darparu yn y **Saesneg a'r Gymraeg**.



Mae adeiladau'r Ysgwrn yn hygyrch i **ddefnyddwyr cadair olwyn** ac ymwelwyr â phroblemau symudedd. Mae hefyd cadeiriau olwyn ar gael ar y safle, ynghyd â cherbyd hygyrchedd ar gyfer teithio rhwng y ganolfan ymwelwyr a'r ffermdy.



**Dim ond cŵn tywys** sy'n cael eu caniatáu ar y safle.

1. Beudy Llwyd (caffi a chanolfan ymwelwyr)
2. Y Bynaglo (tŷ preifat)
3. Yr Ysgwrn
4. Beudy Tŷ
5. Boelderdy
6. Cwt Mochyn
7. Beudy amaethyddol



## ... Angen gwybod



Bydd y safle ar agor bob dydd rhwng y Pasg a mis Hydref, ac yna'n agored i grwpiau drwy apwyntiad ymlaen llaw o fis Tachwedd i'r Pasg. Cost mynediad fydd **£7.50 i oedolion** a **£3.50 i blant**, gyda **thocyn teulu yn costio £17**. Ar gyfer **ymweliadau grŵp, mae'n £10 fesul oedolyn a £5 y plentyn**. Mae ymweliadau grŵp yn cynnwys te/coffi a chacen ynghyd â sgwrs ragarweiniol. Edrychwch ar y wefan i gael manylion diweddaraf yr oriau agor.



**Mae pecynnau grŵp arbennig** gyda lluniaeth neu ginio bwffe ar gael drwy drefniant ymlaen llaw. Cysylltwch â ni i gael manylion ac archebu lle.



Mae yna dderbyniad ffonau symudol ar draws y safle, ynghyd â **WiFi am ddim** yn y caffi a'r ganolfan ymwelwyr.

**Rhaid trefnu ymweliadau addysgol a grŵp ymlaen llaw. Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion.**

## Cyrraedd yma



Lleolir Yr Ysgwrn ar ffordd fach tua 1 filltir/1.5 km (ag arwyddbyst) oddi ar yr A470 ger pentref Trawsfynydd.

Pa mor hir, pa mor bell i Drawsfynydd o:

**Aberystwyth** - 47 milltir, 1awr 16mun

**Birmingham** - 110 milltir, 2awr 29mun

**Maes awyr Birmingham** - 119 milltir, 2awr 40mun

**Aberhonddu** - 99 milltir, 2awr 30mun

**Caernarfon** - 31 milltir, 52mun

**Cheltenham** - 154 milltir, 3awr 33mun

**Caer** - 59 milltir, 1awr 33mun

**Caerdydd** - 141 milltir, 3awr 30mun

**Abergwaun** - 102 milltir, 2awr 52mun

**Llandudno** - 39 milltir, 1awr 7mun

**Llundain** - 231 milltir, 5awr 33mun

**Maes awyr Manceinion** - 90 milltir, 2awr

**Pont Tywysog Cymru** (M4 Pont Hafren) - 147 milltir, 3awr 30mun

**Abertawe** - 118 milltir 3awr 16mun

*Gwybodaeth o Google maps.*



# Yr Ysgwrn a Pharc Cenedlaethol Eryri



Mae Yr Ysgwrn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ffit perffaith. Mae'r fferm yn ddyledus i'r Parc am ei hadfer, a sicrhaodd ddyfodol gwerth hanesyddol a diwylliannol arbennig y safle – a'r negeseuon byd-eang y mae'n eu cyfleu – trwy ei chaffael yn 2012.

Yn ogystal â bod yn ardal o harddwch epig a manau eang, agored, mae'r Parc yn dirwedd fyw lle mae ffermio yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio'r dirwedd honno a chynnal cymunedau lleol. Yn amser Hedd Wyn roedd hi'n anodd gwneud bywoliaeth yma, ac roedd yn rhaid i'r fferm fod mor hunangynhaliol â phosib. Drwy gytundeb tenantiaeth, mae'r Parc bellach yn cael y cyfle i ymarfer defnydd tir cynaliadwy i ddiogelu'r amgylchedd tra'n parhau i gynnal Yr Ysgwrn fel fferm weithiol yn ogystal ag eicon diwylliannol.

Fel y dywedodd Gerald Williams, nai Hedd Wyn: 'Bydd y Parc yn mynd ymlaen am byth. Gobeithio bydd Yr Ysgwrn hefyd.'

[www.eryri.llyw.cymru](http://www.eryri.llyw.cymru)





**Yr Ysgwrn**

**Cysylltwch â ni:**

Yr Ysgwrn  
Trawsfynydd  
Blaenau Ffestiniog  
Gwynedd LL41 4UW

01766 772508  
[yr.ysgwrn@@eryri.llyw.cymru](mailto:yr.ysgwrn@@eryri.llyw.cymru)  
[www.yrysgwrn.com](http://www.yrysgwrn.com)

